MENTER IAITH BRO MORGANNWG

Share your Welsh
Dysgwyr Penarth yn rhannu eu Cymraeg gyda Dot

FE alwodd y cyflwynydd radio a theledu Dot Davies i mewn i gaffi ym Mhenarth ar ddechrau mis Ionawr fel rhan o ymgyrch BBC Radio Wales 'Share your Welsh' i ysbrydoli, annog a chefnogi dysgu Cymraeg yn 2016.

Buodd hi'n recordio sgwrs gyda rhai o ddysgwyr sy'n mynychu bore coffi Menter Bro Morgannwg ar ddydd Iau cyntaf pob mis.

Dot Davies a Huw Stephens yw wynebau a lleisiau'r ymgyrch ac mae nhw'n ysu i rannu eu Cymraeg gyda dysgwyr o bob safon. Mae'n ymgyrch aml-gyfrwng, gydag eitemau ar raglenni dyddiol fel Jason Mohammad ac Eleri Siôn, tudalen arbennig ar-lein ar wefan Radio Wales, a thrwy'r cyfryngau torfol gydol fis Ionawr.

Mae Radio Wales yn awyddus i glywed storiau dysgwyr ac fe gafodd Ian Roberts, Lorraine Wilson ac Ann Simons y cyfle i gael clonc gyda Dot sydd hefyd yn byw ym Mhenarth.

Meddai Gwenda Richards, sy'n gweithio gyda chwmni Audio Always sy'n cynhyrchu Share your Welsh ar gyfer Radio Wales: "Bwriad yr ymgyrch yw ysbrydoli, annog a chefnogi dysgwyr Cymraeg drwy rannu geiriau syml ac ymadroddion bob dydd, darlledu straeon llwyddiant o bob rhan o Gymru a rhoi gwybodaeth am ble a sut i gael help a chyngor. Nid ymgyrch i ddysgu Cymraeg yw hwn. Mae 'na amryw o fudiadau sy'n gwneud hynny ond bwriad Share your Welsh yw hyrwyddo'r pethau positif am ddysgu Cymraeg yn y flwyddyn newydd."

Meddai Dot, "Des i mewn i weithio ar yr ymgyrch yn meddwl bo fi'n gwbod popeth am shwt fydde rhywun yn mynd ati i ddysgu Cymraeg. Ond ces i fy synnu cymaint mwy o adnodde a chymorth sydd ar gael. Mae'n gyfnod cyffrous iawn i'r iaith ar hyn o bryd," ychwanegodd.

Bu Dot yn dysgu sut i ddefnyddio apiau a theclynnau cyfieithu ar ei chyfrifiadur yn ystod yr ymgyrch. Roedd Ian Roberts, un o'r dysgwyr yn awyddus i rannu ei wybodaeth am dechnoleg sy'n helpu dysgwyr,ac fe ddangosodd eiriadur ar lein i'r grwp.

Cafodd Ffion Rhisiart o Fenter Iaith Bro Morgannwg hefyd gyfle i siarad gyda Dot i ddweud am weithgareddau'r Fenter lle all dysgwyr gael cyfle i ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch hwyliog.

Mae casgliad Share your Welsh i'w weld yma: bbc.co.uk/radiowales.

Bob wythnos mae Irfon Jones yn cyflwyno podlediad o uchafbwyntiau'r orsaf o'r enw Pigion bbc.co.uk/radiocymru - ac mae yna eirfa i gydfynd â'r rhaglenni.

Ysbrydoliaeth ac Ysbrydion yr As Fawr

MAE troad y flwyddyn newydd wastad yn cynnig her a hanner, rhwng y nosweithiau maith a'r tywydd garw.

Ac mae rhai yn mynnu troi mis creulonaf y flwyddyn yn uffern pur trwy gydol 'Ionawr Sych'. Wel, tydw i ddim yn tanysgrifio i'r gred mai dyma'r adeg i gosbi eich hun, ond mi ydw i o blaid cyfuno pleser a chadw'n iach.

Yn wir, pa ffordd well i blagio'r bloneg wedi gloddest fawr y Nadolig, nag ymweliad â phentref canoloesol Yr As Fawr? Dyna'n union wnes i tua diwedd mis Ionawr yng nghwmni ffrind sy'n byw yn y Fro, a chawsom b'nawn o giniawa wedi bore braf o fynd am dro.

Perthynai sawl atyniad amlwg i bentre'r As Fawr; yn gyntaf, mae'n ffurfio rhan o Lwybr Arfordir Treftadaeth Morgannwg, sy'n ymestyn am 14 milltir rhwng Aberddawan a Phorthcawl. Ac yn ail, dyma leoliad un o dafarndai hynotaf a gorau Cymru – y Plough and Harrow.

Nid nepell i ffwrdd ceir llwybr gerdded hardd, heibio rhaeadrau hudolus gwarchodfa natur Blaen-Y-Cwm. Wrth gamu tuag at yr arfordir, yna ymlaen at oleudy Nash Point, fe gerddwch chi heibio adfeilion yr hen fferm fynachaidd ganoloesol - sy'n egluro enw Saesneg y pentref, Monk Nash. Mae'r daith gerdded cymharol wastad hon yn 8km (5 milltir) o hyd, sydd yn fy marn i yn cyfiawnhau cinio a pheint, neu ddau, yn y dafarn.

Codwyd y dafarn ei hun ym 1383, fel ffermdy i'r mynachod lleol a berthynai i ystâd Abaty Nedd. Yn dilyn diddymiad y mynachlogydd yn ystod y 16eg Ganrif, gwerthwyd y tir i deulu Stirling Castell Sain Dunwyd; y mae'r enw'n adlewyrchu tir amaethyddol ir yr ardal.

Mae'n enghraifft dda o dafarn llawn cymeriad gyda'i haelwyd a'i thrawstiau hynafol; croesewir cerddwyr a'u cwn, ac ymwelwyr o bell ac agos. Mae'n aml yn cyrraedd y brig ar restrau 'Tafarn Orau Cymru', a hon oedd Tafarn Seidr Orau CAMRA yn 2014. Yn fy marn i, mae'r Plough and Harrow yn sicr yn werth ymweliad.

Wedi bod am dro roedd arnom syched mawr, ond braidd yn ddyfrllyd oedd y cwrw golau HPA Wye Valley. Ond fe'm mhlesiwyd yn arw gan gwrw Celt, Native Storm, llawn blas sitrws ac yn byrlymu o hopys. Â minnau'n ceisio bwyta'n gallach, llowciais bowlenaid o gawl gaeaf cartef, tra'r aeth Esyllt am blatiad o salad, sglodion a selsig Morgannwg, oedd yn andros o flasus, diolch i'r cennin ffres a'r defnydd o gaws llawn hadau mwstard Y Fenni. I orffen ein pryd, fe rannom bwdin bara cartref â hufen tolch, oedd yn fendigedig.

Fe allai hefyd argymell pryd bwyd mwyaf poblogaidd y dafarn – sef y sglodion a 'sgodyn mewn cytew cwrw, a fwynheias yn yr ardd gwrw ddelfrydol ar brynhawn o haf y llynedd. Daw eto haul ar fryn, medden nhw, ond tan hynny, ceir atyniad tipyn amgenach na'r arfer i'r Plough and Harrow, sef ei chymuned o ysbrydion, sy'n creu tipyn o drafferth mewn tafarn.

Yn eu plith y mae dyn mewn clogyn du, bachgen bach â chanddo fop o wallt cyrls, yn ogystal â Beryl Botton, y cyn-berchennog a fu farw yn 1985. Prun ai ydych chi'n coelio ai peidio mewn bwci bos, rhaid fod na elfen o wirionedd i'r hanes, gan mai marwdy'r mynachod oedd y bar yn wreiddiol, felly da chi, byddwch ar eich gwyliadwraeth!

The Plough and Harrow, Yr As Fawr, Bro Morgannwg CF71 7QQ (01656) 890209.

LOWRI HAF COOKE

MYND AM DRO I'R FRO...I LECWYDD GYDA DAI LINGUAL

C"LECKWITH" redwch neu beidio, lle gweddol letchwith o ran etymoleg yw Leckwith felly ie, dyma fi yn defnyddio'r enw Saesneg am unwaith.

Ond wrth gwrs, llefydd yng Nghymru ydy'r rhain, felly nad enwau Cymreig - os nad Cymraeg - ydy pob enw yn ein Bro? Mwy am hynny ar ddiwedd yr erthygl efallai. Yn y cyfamser...

Tan yn ddiweddar iawn - ac efallai dyma'r rheswm nad yw Lecwydd wedi cael sylw ar y tudalennau yma o'r blaen - ro'n i o'r farn mai dim ond un stori sydd i Lecwydd:

Sef 'Lle' y 'Gwydd'; nid o reidrwydd y gwyddau 'chwaden'-ol ond y coed chwedlonol yn hytrach, ac yn wir ceir tipyn o goedwig ger y pentref hyd heddiw.

Ond, fel gyda phob enw astudiwn, ceir mwy nac un esboniad.

Er enghraifft te, o ddarllen "Place Names of Glamorgan" gan Gwynedd O. Pierce yn adran hanes lleol llyfrgell Penarth (ac i fod yn deg rydw i'n ceisio ymchwilio yn y llyfrgell ac felly'n gadael y llyfrau ar y silffoedd at ddefnydd pellach ein cyhoedd) gwelwn fod yna sawl cysyniad gwahanol ar gael i ni fynd ar ôl eu trywydd yn bellach, ac yn wir ambell i syniad hynod hylif!:

Lecquid neu Lequid (1184) – ymgais cynnar gan y Sais i ysgrifennu Lecwydd?

Llechwyth (1578) – neu le lletchwith megis Tŷ Chwith fel nes cyfeirio uchod?

Llechwedd – man ar lethr, meddai Samuel Lewis yn ei Topographical Dictionary (1843).

Yn ogystal, ni ddylem anghofio bod Llyfr Llandaf neu'r Liber Landavensis, sydd hefyd o'r 12fed ganrif, yn cyfeirio at Sant Helygwydd sydd ag eglwysi a mannau sanctaidd yn ei enw ei hun (mae'n rhannu'r enw hynny gyda choeden ond stori arall yw honno mae'n rhaid). Gellid felly ychwanegu [He]Lygwydd i restr y mannau sydd wedi eu henwi gan Sant ond heb 'Llan', 'Merthyr' neu 'Eglwys' yn eu henw? Rhestr sydd yn rhy hir i argraffu fan hyn felly dyna gêm fach i chi chwarae wrth i'r nosweithiau goleuo yn araf deg. Ydy Gwbert yn un i ddechrau?

Ta waeth, fel nes awgrymu yn fy nghyflwyniad, mater o farn ac o bryd i gilydd mater o wleidyddiaeth yw enwau, gwelir hyn yn eglur yn nrama enwog Brian Friel sef 'Translations'. Wrth enwi rydym yn cymryd perchnogaeth – a hawl – dros y peth; gall hyn fod yn bleser o'r mwyaf wrth feddwl am ddeinosor lleol yn ddiweddar. Ond, pan mae ardal, fferm neu bentref yn teimlo o dan fygythiad gan enwau estron, yna bygythiad o ryw fath yw hynny er mor ddifater mae'n gallu edrycho'r tu allan.

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am ddiogelu enwau llefydd Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yn Y Fenni [tre ag iddi hanes a gwrthdaro etymolegol ei hun], yn arbennig os am wirfoddoli ar stondin ar ran Cymdeithas Enwau Llefydd Cymru. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â david@cymunedau.org neu ysgrifennwch at Dai Lingual, 16 Lewis Rd, Llandochau Fach, Bro Morgannwg.

CYLCH MEITHRIN DINAS POWYS

Mae tymor newydd Cylch Meithrin Dinas Powys bellach wedi dechrau ar Ionawr 11eg, 2016 am 9.30yb.

Rydyn ni'n cynnal ein sesiynau yn Neuadd Kynance, Dinas Powys, sydd ar waelod y Comin ar ochr y pentre. Mae croeso i blant dwy oed ymuno â ni yno am sesiwn o ddwy awr; cost sesiwn yw £8. Croesewir plant o ardal eang yn cynnwys y Barri, Y Rhws, Sully, Penarth,

Llandochau yn ogystal â Dinas Powys. Byddwn yn croesawu staff newydd i arwain y cylch yn y tymor newydd. Am ragor o wybodaeth, ffoniwch Elinor Elias Jones ar 02920512405/07967188 347.

SÊR EIRY

ARIES:
Tan ddechrau Mis Mawrth mi fydd y pwyslais astrolegol ar dy gartre. Mae'n bosib y bydd yr adeiladwyr yn cnocio dy nyth fach di'n rhacs. Ar ôl Mis Mawrth mi fyddi di'n greadigol iawn - yn adeiladu eto falle! Neu'n creu mewn ryw ffordd ymarferol arall. Mae newyddion am fabi newydd yn bosib (Wps!).

TAURUS:
Mae hi'n bryd talu dyledion - ariannol ac emosiynol, ac mewn pob ffordd arall hefyd. Mae hon yn bygwth bod yn flwyddyn drom iawn yn llawn cyfrifoldebau, ond mae gyda ti ddigon o asgwrn cefyn a dyfalbarhâd i ymdopi. Mae misoedd Mawrth ac Ebrill yn debygol o fod yn rhai eitha rhamantus.

GEMINI:
Mae hon yn mynd i fod yn flwyddyn o newidiadau mawr yn dy fywyd. Fyddi di ddim yr un person ymhen blwyddyn ag yr wyt ti heddiw. Rwyt ti'n mynd i ddysgu llawer o wersi mawr a phwysig eleni, ond rwyt ti'n mynd i gael llawer o hwyl wrth wneud hynny hefyd!

CANCER:
Mae bywyd wedi bod yn eitha caled arnat ti yn ystod y blynyddoedd a aeth heibio, ond mae'r cyfan ar fin newid. Mae 2016 yn mynd i fod yn flwyddyn i'w chofio, yn llawn hwyl a sbri a rhamant. Tria beidio â gwario'n rhy wyllt, neu mi fyddi di'n wynebu 2017 heb geiniog yn dy boced.

LEO:
Dyma'r flwyddyn pan all unrhyw beth ddigwydd - ac mae'n debygol o wneud. Mae digwyddiadau annisgwyl rhyfeddol ar eu ffordd i ti. Fe allai pob un o dy freuddwydion ddod yn wir, ac un neu ddwy na freuddwydiest ti amdanyn nhw hefyd! Mwynhâ!

VIRGO:
Mae pethau'n mynd i fod yn eitha tawel yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, ond erbyn mis Gorffennaf mae llawer iawn o lwc am ddod dy ffordd. Cymer fantais ohono a phaid a gwrthod unrhyw gynnig ddaw heibio. Mae Awst yn amser da i brynnu tocyn raffl, tocyn loteri neu osod bet o unrhyw fath.

LIBRA:
Mi fyddi di'n dechrau 2016 yn llawn ynni a brwdfrydedd tuag at dy waith a dy fywyd cymdeithasol, ond mi fyddi di'n dueoddol o losgi allan cyn gweld Mis Chwefror. Bydd llawer o filiau annymunol ar ei ffordd i ti bryd hynny, gobeithio fod digon o arian yn y cadw-mi-gei i'w talu!

SCORPIO:
Mae'r flwyddyn yn dechrau'n arbennig o lewyrchus, pan fydd pob math o bethau da yn disgyn i dy gôl; pam felly mae'n rhaid i ti fod mor ddiamynedd gyda dy gariad? Rwyt ti'n ymddangos yn rywiol iawn ar hyn o bryd ac yn debygol o'i gadw oherwydd hynny, ond cymôn rho gyfle i'r truan!

SAGITTARIUS:
Mae'r flwyddyn yn dechrau gyda'r planed sobor Sadwrn yn dy arwydd, gan roi digon o gyfle i roi trefn ar dy fywyd a chadw at dy addunedau Blwyddyn Newydd. Erbyn mis Mawrth a gweddill y flwyddyn mi fydd y pwyslais astrolegol ar dy sefyllfa ariannol. Amser i fod yn ddarbodus, neu dyn a dy helpo!

CAPRICORN:
Mae'r planed Pluto - planed sy'n gallu newid dy fywyd yn gyfangwbl yn dy arwydd di am sbel go hir. Mae llawer o elfennau yn dy fywyd yn mynd i newid yn llwyr yn y misoedd a ddaw, ac mae pob newid yn un er gwell, er falle na fyddi di'n credu hynny ar y pryd. Fe allet symud cartre yn ystod y flwyddyn.

AQUARIUS:
Roedd 2015 yn flwyddyn dda yn llawn addewid, ond mae 2016 yn mynd i fod yn llawer gwell. Fe ddylet wneud yn dda IAWN yn dy waith ac yn dy fywyd personol eleni. Bydd Mis Awst yn benllanw yn dy fywyd - pan fydd rhywbeth annisgwyl a chyffrous yn debygol o ddigwydd.

PISCES:
Roedd 2015 yn flwyddyn lwcus i ti, ac mae'r lwc yn para trwy Ionawr a Chwefror yn 2016, a mae'n bosib iawn y cei di rhyw gildwrn annisgwyl rywbryd cyn diwedd y flwyddyn hefyd. Cymer ofal o dy iechyd eleni a phaid â dilyn cyngor y meddyg yn slafaidd. Mynna ail farn.

CYMRODORION Y BARRI

Bydd ein cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar y 16eg o Chwefror. Rhaglen gan ddysgwyr y Barri – os ydych yn ddysgwr, neu'n athro, galwch heibio i fwynhau'r arlwy. Festri Capel y Tabernacl am 7.15pm.

PEIDIWCH ANGHOFIO – ein Cinio Gŵyl Ddewi, nos Wener Mawrth 4ydd yng Nghlwb Golff Castell Gwenfô. Manylion oddi wrth Rhoswen Deiniol, rhoswend@hotmail.co.uk.